

Llen natur

Bwletin 114 Awst 2017

gan gynnwys bwletin
Cymdeithas Gwaith Maes "Llygad y dydd"



Tynnwyd hwn ar 19 Mehefin eleni yn y clawdd rhwng Plas Lligwy a Thraeth Lligwy. Mae'n fy atgoffa o luniau manwl cyfoethog Pre-Raphaelite o gefn gwlad sydd yn diflannu'n gyflym. Hir y parhaed y corneli bach hyn o gyfoeth DB

Clychau'r eos 24 Mehefin!!!



ANHYSOEL! Newydd dynnu'r llun hwn ym Mhenisarwaun (24 Mehefin). Dwi wedi cymryd erioed bod clychau'r eos yn arwydd o'r haf yn dod i ben. A dyma fo yn ei ogoniant ym mis Mehefin. Mi gesh i o yn yr un fan ddwy flynedd yn ôl ar 30ain o Fehefin. Ond o chwilio yn y 107,000+ o gofnodion yn y Y Tywyddiadur am CLYCHAU'R EOS a HAREBELL dim ond y ddau yma ddaeth i fyny ym mis Mehefin. Amser dechrau dal sylw am bethau'r hydref yn barod felly! (Mae cyfaill o Dregarth wedi cael ei fasgediad gyntaf o fadarch siantarél cryn wythnos yn ôl!). DB

Arwyddion y tymor



Arwyddion y tymor (3 Gorffennaf 2017): pryfed ffrwythau (*Drosophila?*) cyntaf yn cylchynnu yn y stafell haul. Blodau bysedd cwn wedi cyrraedd pen eu coesau fel twffyn ger Cwt Hers, Waunfawr.

(Newydd fynd i'r Tywyddiadur i weld y dyddiadau cofnodwyd "twffyn" a "bysedd y cwn" o'r blaen. Dyma be gefais: 26/7/2006, 20/7/2010, 14/7/2011, 21/7/2015. Mae eleni yn gynnar felly.)

Ewch **YMA** i weld erthygl ar waith ar y **BYSEDD CWN** yn Wikipedia. Os hoffech gyfrannu i'r erthygl hon (neu'r myrdd o rai eraill yn ymwneud a rhywogaethau, rhowch floedd.)

Parti gwyfynod Llen Natur mewn cors yn Nhregarth



Noson 14 Gorffennaf cynhaliwyd Parti Gwyfynod yn Nhregarth. Cawsom ein bendithio gan dywydd perffaith ynghanol y cawodydd y ddau ben!

Dyma'r ddau wyfyn cofiadwy o'r helpa: y mwyaf niferus oedd **cwlwm cariad** (uchaf, ei lindys yn bwyta grug, sef prif blanhigyn y gors) a'r **trwynog bychan**, gwyfyn prin gwasgarog ar draws Prydain hyd yn oed mewn corsydd bach fel hyn. Dafydd Lewis



Rydym yn bwriadu cynnal Parti arall ddiwedd mis Awst. Dilynwch Facebook Llên Natur

Cored Lligwy



Oes gan unrhyw un hanes y gored bysgod hon ym mhen deheuol Traeth Lligwy, Môn? Beth oedd ei henw? Pryd oedd hi ar waith? Pwy, os unrhyw un, oedd yn ei chynnal?

Mewnllun: 'Roedd **Cored y Rhos** yn rhoi bywoliaeth dda hyd ran gyntaf yr ugeinfed ganrif. Yn 1850, mewn un noson, daliwyd 35,000 o benwaig!

Gareth Pritchard

Dawns y pryfed hofrol



Pry hofrol cyffredin *Eristalis nemorum* ydi hwn. Mae'r ceilog yn enwog iawn am ei ddawns uwchben yr iar, fel mae'n ei wneud yn y llun hwn (tynnwyd 9 Gorffennaf 2017 wrth yr afon o dan Pontllyfni). Be gawn ni alw hwn yn Gymraeg tybed? DB
Pry' hofrol (*hovering fly*)
Pry' hofren (*hover fly*).
Hofren 'ta hofrol? (cwch rhwyfo... cader siglo, ond person sy'n rhwyfo a siglo - mae'r pryf yn hofren ohono ei hun. Felly 'hofrol' nid 'hofren'? Pry' blodau meddai rhai, ond onid yw hynny braidd yn ben agored?

Yn Y Glorian ... nis cafwyd yr hogia yn brin!



Bronwen y dwr, Afon Ffyddion, Diserth, Tachwedd 13, 2015 (SJ 05 79 Eifion Griffiths)

Efallai i rai ohonoch, drigolion Llangefni, weld Kelvin Jones a fi yn llythrennol yn yr Afon Cefni yng nghanol Llangefni rhwng 6.30 a 9.00 o'r gloch bore dydd Gwener, 26 Mai [2017]. Bore

bendigeidig o braf a chynnes. Roeddwn wedi derbyn e-bost oddi wrth Kelvin (Trefnydd y British Trust for Ornithology (BTO) dros Gymru) yn dweud bod yna Fronwen y Dŵr wedi ei modrwyo yng nghanol Llangefni ac 'nad oedd hanes o Fronwen y Dwr wedi cael ei modrwyo ym Môn ers pan oedd Noah yn hogyn bach'!

Gwelwyd bod y Fronwen Ddŵr gyda'r fodrwy, yn ardal y bont sydd yn arwain o siop cigydd Jacki Thomas a dan y bwa am siop Asda. ... Fe'i daliwyd! Drwy chwythu ar ei bol, gwelwyd clwt moel o blu, lle bu'r iar, felly yn gori ei wyau. Cafodd ei mesur a'i phwysu a gwnaed nodyn o'r manylion oedd ar y fodrwy. Roedd yn pwyso 60 gram. Y diwrnod canlynol cefais wybod gan Kel mai fo, yn wir, oedd wedi dal a modrwyo'r aderyn, yn un o bum cyw, ar 19 Ebrill 2012, ar yr Afon Dwyfach, rhwng Bryncir a Phant Glas!

Wil Williams, papur bro Llangefni

Roedd yr aderyn hwn felly dros bum mlynedd oed ac roedd wedi symud oddeutu 25 milltir dros y cyfnod. Nid yw'r fronwen ddŵr yn symyd ymhell iawn o'i milltir sgwâr enedigol ond mae eithriadau. Dyma rannau o adroddiad gan Wil Williams o bapur bro Llangefni Y Glorian yn olrhain un symudiad ychydig yn anarferol.

Gweinbryf o Sir Benfro



Es i am dro dydd Sadwrn ac welais carreg mewn nant gyda pethau od ar wyneb y carreg. Beth sydd ar y garreg?

Ced Conolly

Agapetus fuscipes is classified as Common and it's widely distributed in Wales. 'Agapetus and if it was a small stream *fuscipes*'

Cymylau a Rhuthr Cynllwyd



31 Mai am 13:37 Cymylau hynod dros Gwm Cynllwyd yn ystod y tywydd poeth yn ddiweddar. Luned Meredith

Dyma ddywed David Meredith am wynt arbennig yn yr ardal hon: “Rhuthr Cynllwyd ydi’r gwynt nerthol sy naill ai yn sgubo lawr Cynllwyd o Ben y Bwlch, neu lawr Cwm Croes ac i fyny Cynllwyd o’r Aran. Yn aml iawn, bydd yr afon (y Twrch) wedi codi yn ystod tywydd fel hyn a’i swm yn amlwg iawn yn y cwm.”

Dywedodd y diweddar Dei P Jones, oedd yn bosmon yma am ddegawdau (tad Gwennant Pys, yr arweinydd côr), ei fod yn medru gweld rhuthr Cynllwyd yn dod lawr o’r Aran ac yn troi heibio mynydd Talardd i Gynllwyd pan oedd yn cario glaw neu eira.

Barf yr afr



Manyllder hadau **barf yr afr**: Gwarchodfa Glascoed, Llanelwy, Gorffennaf 2ail Alun Williams
barf yr afr eb. barf yr afr felen, barf yr Afr, barf yr afr Eden lleiaf, barf y Bwch, *Tragopogon pratensis, goat's-beard*
Beth am gyfrannu at ddatblygu'r **bonyn erthygl Wikipedia** ar y planhigyn hwn - cysylltwch!

Mwy am dwyni tywod

Yn dilyn y darn a godwyd o Wikipedia am y MORESG yn y **Bwletin diwethaf** cawsom ymateb yn syth gan Erddyn Davies yn ein hatgoffa o’r enw hyfryd Tanforhesgen yn Ardudwy. Dyma ddywedodd Erddyn: “Os ydych yn chwilio am enwau sy'n gysylltiedig â moresg mae fferm o'r enw 'Tanforhesgan' ar gyrion Ynys, Talsarnau, ar Forfa Harlech. Cyfeirnod grid y ffermdy: SH583343”.

Erddyn Davies

A dyma ymateb Dylan Foster Evans: “Wedi treulio oriau di-ri yn y twyni hynny rhwng Tywyn ac Aberdyfi, ond heb glywed yr enw 'Tyrau (Morysg)'. Ein gair ni yn blant oedd 'twyni' ond fel teulu nid oedd ein gwreiddiau yn yr ardal felly gall fod enw arall yn lleol. Byddwn yn tybio mai 'tyrrau' fyddai'r ffurf safonol heddiw, o 'twr' (fel yn 'pentwr') yn hytrach na 'tŵr/tyrau'. Mae'r ymadrodd 'tyrrau tywod' i'w gael ambell dro, megis **yma wrth gyfeirio at y Rhyl** ('tyrau tywod'): Ceir fersiwn ar yr **un erthygl yma**, ond gyda 'tyrrau tywod' y tro hwn: Cyfeirir at 'dyrau tywod' **ardal Southport yma**: Gwerth nodi fod defnydd ar yr ymadrodd 'tyrau tywod' (a defnyddio sillafiad heddiw) ar gyfer '*sand castles*'. Felly pethau gwahanol iawn yw 'tyrrau tywod' a 'tyrau tywod'! (Rwyf innau fel chithau wedi clywed 'tocia' yn ardal Harlech.)

Dylan Foster Evans

Gwelaf hyn yn GPC:

tywyn²

eg. ll. (geir.) tywynydd.

Traeth, glan môr, arfordir, ymyl môr, twyn tywod:

beach, seashore, strand, coast, sand-dune.

TRAETH yn dod gyntaf a '**SAND DUNE**' yn dod yn olaf! Beth yw'r dystiolaeth tybed am tywyn = traeth (enwau lleoedd yn gryf o blaid tywyn = '*sand dune*'?)

DB

Cwestiwn da! Mae'n debyg fod 'tywyn' fel enw cyffredin wedi darfu yn weddol gynnar — mae'r enghreifftiau yn GPC sy'n ddiweddarach na'r 16g i gyd o eiriaduron. Felly anodd bod yn sicr o'r ystyr, er bod yr enwau lleoedd yn awgrymu twyni. Ond byddwn yn amheus o'r ystyr unigol '*sand dune*' — efallai y byddai '*sand dunes*' yn well (mae'n ddiddorol nad oes cofnod o ffurf luosog go iawn i 'tywyn'). Mae'r enghraifft o'r 12g yn awgrymu fod yn rhaid cael tywod i gael 'tywyn', ac felly fod yr ystyr yn fanylach na 'glan môr, arfordir'. **DFE eto (gohebiaeth ar Facebook Llên Natur)**

Son am dwyni, mae yna un enw lle ar Fraich Abermenai, ochr Y Fenai, o'r enw Twm Grafal. Cysidrais pwyl goblyn oedd Twm, tan darganfod mai llygriad o tywyn ydion. Enw gefais gan Tony Lovell, un o bysgotwyr "samons" Caernarfon - y Cofis wedi llygru'r gair tywyn. Rhain wedi eu cofnodi yng Nghylchlythyr cynnar Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru.


Ifor Williams

Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd (Rhif Elusen: 1126027)

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wikipedia

Cysylltwch â ni trwy **llennatur@yahoo.co.uk**

Dau wyfyn trawiadol



Beth yw eu henwau Cymraeg?

Mesoleuca albicollata (*Beautiful Carpet*)

Timandra comae (*Blood Vein*)

y ddau acw ym Motwnnog/Sarn Mehefin 22, a 27

BRYCHAN HARDD a GWYTHIEN GOCH.

Mwy am y trogod

Ar ôl nodyn gan Nia Watkin Powell yn y rhifyn diwethaf a'i roi ar y weplyfr dyma dderbyn yr ymatebion difyr yma:

Defnyddio trogan yn Llŷn. Lluosog - trogod Elfed Gruffydd

Tarag/teureug yn y Llydaweg Llên Natur

Drogod; pan yn plant yn godro gwarthaig hefo llaw fe fyddech yn cael rhain yn y gesal rhwng y pwrs (cadair) ar goes. Hefyd ar dir lle tyfai rhedyn fe fyddai gwartheg yn cael anhwylder a gwaed yn dod o'r dwr. (golch.. Piso) a marwolaeth yn dilyn John Rowlands

Diddorol... oes yna rhywun yn gallu ategu Nia WP efo'i lluosog TREGYN?

Llên Natur

Drogod. Byth yn deud trogod

Dafydd Whiteside Thomas (Llanrug)

Drogen drogod! Hen bethe ych a fi!! Lynda Thomas:

Trywingan ddeudwn i am honna, a trywingod fysa mwy nag un. Ond yn deall hefyd bod y gair hwnn hefyd yn cael ei ddefnyddio am 'roundworm'. Dryslyd! Mynytho

Catrin Elis Williams

Wel, wel! TRYWINGAN aie? Be sgin GPC i ddweud am hwnna tybed 'Dryslyd o Fynytho'!?

Dyma fo:

derwreiny, derwreini, derwreinen

[?elf. der+gwreiny, gwreinen a ffurfiwyd yn e. un. newydd (gan ddisodli'r hen un. gwre) o'r e.ll. gwraint 'cynrhon']
Ar lafar yn y Gogledd yn y ff. derwinan, dyrwinan, drwinan, drywinen, trywingan, ll. derwinod, drywinod, &c.

Dim son am na throgan na hislan na dim byd o'r fath. RINGWORM ydi dyfarniad GPC felly. Diddorol Catrin.

O ia siŵr, dwi'n drysu rhwng ringworm a roundworm!

Peryg! Dryslyd iawn o Fynytho!

Catrin Elis Williams

Gogyrogo neu brechdan bren


Unrhyw sylw ar y rhain? Tyfu ar goed bedw arian mewn coedwig ar lan Llyn Rudyard, Swydd Stafford. Mehefin 28 2017.



Mae nhw'n edrych i mi fel sbesimenau digon trist o *Piptoporus betulinus*, ysgwydd y fedwen. Ond mae yna enw Cymraeg arall, lleol i Blaenau Ffestiniog yn ôl be dwi'n ddeall, sef

gogyrogo. Oes yna rhywun wedi clywed am yr enw rhyfedd yma (neu oes rywun yn y Blaenau all gadarnhau). *Birch polypore* yn Saesneg ond hefyd *razorstrop fungus* am ei fod yn cael ei ddefnyddio ar un adeg i hogi rasal (y math 'holhti gwddw').

Ond mae gen i brofiad personol o ddefnyddio'r fadarchen hon - pan oeddwn yn casglu gwyfynod ers stalwm roedd rhaid eu gosod ar stondin fach ar ôl eu setio'n ddel efo pin drwyddyn nhw. Y defnydd a ddefnyddid fel 'stondin' i osod y cyrff oedd styllod neu sglodion bach wedi torri allan o'r ffwng yma. Doedden nhw ddim yn colli siâp ac mi roedd yn bosib eu prynu gan yr enwog gyflenwyr gwyfynnol Watkins and Doncaster. Byd arall!!! Dyma ddeigram (de isaf) o'r styllen fach wedi ei wneud o'r gogyrogo!.



Slefrod cwmpawd




Cannoedd o rhain yn y Borth 9 Gorff lolo ap Gwyn.

Pam cwmpawd (*compass jellyfish*)? Môr ddanhaden yw'r enw cywir.

Mae'r pigiad yn teimlo fel pigiad danadl poethion, dynent. *Chrysaora hysoscella*, o *chrysaor* ym mytholeg Groeg, map Poseidon a Duw melt.

Cofiwch glicio ar y geiriau mewn coch i gael mwy o wybodaeth

Copyn labirinth *Agelena labyrinthica*



Tynnodd Graham Williams y llun hwn o'r copyn labirinth yn nhwyni Niwbwrch.

Gwiriwyd y cofnod gyda dyn y pry'cop Richard Gallon o Cofnod ym Mangor. Dyma ddywedodd:

Yes, the ID is correct: *Agelena labyrinthica*. It has an interesting UK distribution [uchod]. Obviously likes warm lowland areas – totally absent from upland mid-Wales.

Carpiau'r Diafol


Mae'r enw Lladin (*Polygonia c-album* "c"-gwyn), y Saesneg (*comma*, "atalnod") ac un o'r enwau Ffrangeg yn cyfeirio at y nod gwyn ar ffurf atalnod ar ochr isaf yr isadain. Mae'r enwau Cymraeg a'r enw amgen Ffrangeg ill tri yn cyfeirio at ffurf "carpiog" yr adennydd. Mae un o'r enwau Ffrangeg yn tynnu ar draddodiad sy'n cysylltu ffurfiau toredig a lliwiau coch tanllyd â'r diafol.

HANES YR ENWAU FFRANGEG AR Y FANTELL GARPIOG (Dyma drosiad o'r esboniad isod gwaelod yn y Ffrangeg) "Bathodd Geoffroy ym 1762 ddau enw Ffrangeg ar y FANTELL GARPIOG, sef "Le Gamma", sy'n gwneud synnwyr wrth gymharu'r llythrennau sydd yn gorwedd ar ei chefn â g (*gamma* Γ mewn groeg). Yr enw arall yw "Robert-le-Diable" (Robat y Diafol) oherwydd ymyl fratiog ei adennydd (ymadrodd Ffrangeg: *découpe à la diable*) yn ogystal â'r cymysgedd o liwiau (ymadrodd Ffrangeg: *couleur de diable enrhumé*, sef lliw diafol annwydog), lliwiau du, "tannaidd", melyngoch. Mae'r enw ei hun yn tarddu o un o nofelau mwyaf poblogaidd y cyfnod rhwng y 17C a'r 19C o'r enw "Buchedd dychrynlyd a rhyfeddol Robat y Diafol" (*La terrible et merveilleuse vie de Robert le Diable*), yn ôl chwedl o'r 13C."



Les noms vernaculaires créés par Geoffroy en 1762 sont "Le Gamma", justifié si on décrypte la lettre alaire comme un G (*gamma* en grec), et "Le Robert-le-Diable", en raison de la découpe "à la diable" du bord échancré des ailes, et de la "couleur de diable enrhumé", bariolée de fauve, de noir et de feu. Le nom lui-même est tiré d'un des romans les plus populaires du XVIIIe au XIXe, *La terrible et merveilleuse vie de Robert le Diable*, d'après une légende du XIIIe siècle.

Campweithiau ffotograffwyr y mis




Beth sydd ar thoracs y fursen ?

Alun Williams


Mae'n debyg mai larfa gwiddon y dŵr (*Hydracnellae*) sydd i'w gweld yma. Er eu bod yn barasitig, nid ydynt yn gyffredinol yn niweidiol. Maent yn cael eu trosglwyddo o larfa y fursen fel mae oedolyn yn ymddangos ond yn disgyn i ffwrdd yn ystod y cyfnod dilynol. Rhaid cofio mai dim ond am wythnos neu ddwy mae mursen yn byw - wedi paru a dodwy wyau y genhedlaeth nesaf, nid oes diben i'w bodolaeth (ar wahan i roi pleser gweledol i naturiaethwyr, wrth reswm) Iwan Roberts

Campweithiau'r mis

Bran goesgoch ifanc, Ynys Lawd, Gorffennaf 7ed. Mae tua 300 par o'r adar yma yn nythu ym Mhrydain, roedd canran uchel o'r adar a welais yn Ynys Lawd yn adar ifanc, sylwch ar y pig oren i gymharu gyda phig coch yr oedolion.



Alun Williams



Tynnwyd y clochdar cerrig ar 19 Mehefin ac fe'i rhanwyd ar Facebook Llên Natur gan y ffotograffydd

Roy Gunther

Dilynwch Facebook Llên Natur am ein holl ddigwyddiadau

Gwaith cerrig Edward Edwards 1873-86


	Ion	Chw	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gor	Aws	Med	Hyd	Tach	Rhag	
1873					<< dim gwaith cerrig >>								
1874		2			1								
1875					2								
1876					6	4	1				1		
1877	1				8								
1878					7								
1879	3				6								
1880	4	1	3		4	112							
1881					6								
1882					3	1				1			
1883					3								
1885	dim cofnodion Ebr 1884-Gor 1885								1				
1886					2	1							

Bu'r hanesydd Rwth Tomos wrthi ers tro yn trawsgrifio dyddiaduron y ffarmwr Edward Edwards, Faenol Isa, Tywyn. Erbyn hyn mae hi'n dechrau dadansoddi ac yn dehongli gwaith pob dydd EE yng nghanol y Chwyldro Diwydiannol. Dyma ddadansoddiad moel o ddau derm a ddefnyddiai EE, sef "hela cerig" (glas) a "cario cerig" (coch). Dyma ddwy enghraifft:
 12 Mai 1875: diwrnod ffeind iawn **hela cerig** y ddau gyfar ar weirglodd
 Roedd bron pob enghraifft o *hela cerig* ym mis Mai.
 19 Mehefin 1882: Rowland yn **cario cerig** at Eglwys Bryncrig
 Roedd **hela** yn golygu clirio cerrig o'r tir (mis Mai yn hwyr?) a **cario** yn golygu nod arbennig (trwsio eglwys, llenwi 'trensio, hyn mewn oes pan oedd y rheiffordd yn cael ei sefydlu yno)

Y Calendrau - gofal pia hi

Beware the ides of March dywedodd Shakespeare. "Gair i gall" ddywedwn i. Ar un adeg roedd y flwyddyn yn dechrau ar 15 Mawrth a dyddiadau eraill y flwyddyn 11eg niwrnod ynghynt. Os ydych chi eisiau mwy o esboniad ewch **yma**. Os ydych angen mwy o wybodaeth am y cywiriadau sydd eu hangen wrth ddehongli cofnodion ffenolegol dros ganrifoedd ewch i **fan hyn**. Ond yn y graff isod cewch weld amseriad misol cofnodion 'frost' a 'snow' yn nyddiadur Robert Bulkeley 1631-36 yn ôl y Calendr Iwleaidd (calendr RB piws) a'r Calendr Grigoraidd (glas).

CYMHARIAETH DAU GALENDR
 Nifer o gofnodion Dronwy gyda "frost" neu "snow" 1631-36



Ac dyma'r canlyniad: mae tymor eira a barrug yng nghyfnod RB fis ynghynt (Rhagfyr yn oearaf) nag ydym yn gweld heddiw (Ionawr yn oearaf). Ac mae hynny'n wir ni waeth pa galendr a ddefnyddir, er i'r gwahaniaeth leihau fymryn ar ôl y cywiro.

Gwymon Llydewig ar ei ffordd yma?



Ym mhyllau llanwg ger Lokmaria-Kaer, Morbihan. Be dio, unrhyw syniad?
 Graham Williams
 Meddai Sion Roberts: "Math o wymon: **Gwymon y paen**, *Padina pavonica*. Nid yw yn tyfu yn Gymru.

Gwres mawr Mehefin 2017 (Llanfaglan)



19 Mehefin yn Llanfaglan 27.7C. am 15:00, lleithder 60-96%
 21 Mehfin, 31.9C am 14:30, lleithder o 53 i 96%
 Y linell goch yw tymheredd, du Pwysau'r awyr a'r wyrdd yw lleithder.



Grant Teithio Cymdeithas Gwaith Maes.

Taith BI 8 Ysgol Syr Thomas Jones i Warchodfa Natur Cemlyn, Haf 2016

Ers blynnyddoedd mae blwyddyn 8 wedi ymgymryd â deuddydd yn rhymer yr haf yng ngwarchodfa Cemlyn ar arfordir gogleddol Ynys Môn. Ein cyswllt arbenigol yw Ben Stammers a'i griw o'r Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

Yn 2016 cafwyd dau ddiwrnod braf hefo tua 35 o blant pob diwrnod yn dangos brwdfrydedd a chwilfrydedd i ddarganfod mwy am y cynefin arbennig sydd yn Cemlyn.

Gan ei bod yn drai dechreuwyd drwy archwilio'r pyllau creigiog. Roedd Ben yn awyddus i'r disgyblion ddarganfod amrywiaeth eang o'r anifeiliaid a'r algae oedd i'w weld yno. Cafwyd tua hanner awr hefo pob grwp yn chwilio a dal anifeiliaid diddorol fel crancod meudwy, gwllithen fôr, ambell lisywen ac amrywiaeth o algae. Yna nôl i fan canolog a rhoi'r anifeiliaid mewn cafn gan arddangos ac ateb amrywiaeth o gwestiynau e.e. y gwahaniaeth rhwng crancod (shore crabs) gwrwol a benywol.



Ar ol cinio aethpwyd at y lagwn ac yna cerdded oddi yno tuag at y traeth. Gwelwyd wrth agosai at y traeth bod yr amrywiaeth planhigion yn prinhaus oherwydd eu anallu i ymdopi â halen. Yna cerdded ar hyd y traeth tuag at y môr wennoliaid. Mae'r rhain o hyd yn rhyfeddod hefo'i sŵn a'i gallu i chwilio a bwydo ei chywion.

I orffen gair o ddiolch i Ben a'i griw o'r Warchodfa Natur am ddau ddiwrnod diddorol ac am ennyn brwdfrydedd y disgyblion yn eu cynefin lleol. Ydych chi am ymweld a'r traeth yr haf ya? Cofiwch am [gôd y traeth](#) a gwyliwch rhag wiber yn y twyni tywod os yn boeth.



Cwis Morol. Ymddangosodd hwn ar wefan gwaith maes ym mis Mai 2003. Mae [chwilair](#) yn cydfynd os hoffech ei wneud:

Atebion i golygyddol@gwaithmaes.org
Gwobr o £10 i'r un cyntaf cywir allan o het

Am fanylion am y grant teithio, ac iu weld yr holl erthyglau ewch i www.gwaithmaes.org

- | | |
|----|---|
| 1 | Cefnder y cranc, bwyd drud, coch. |
| 2 | Plu gwyn a llwyd, pig melyn, traed tebyg i rai hwyaden, yn bwydo ar y môr, y traeth neu domen sbwriel. |
| 3 | Cigysydd gyda rhesi o ddannedd miniog, ond na sydd yn haeddu ei enw drwg. |
| 4 | Creadur gyda phum braich a thros ddau gant o draed. |
| 5 | Planhigyn morol, coch, brown neu wyrdd, ar waelod y gadwyn fwyd. |
| 6 | Cartref i anifeiliaid corff meddal, mewn un neu ddau hanner, o bob maint, lliw a siap. |
| 7 | Creadur a chanddo bum pâr o goesau sy'n symud wysg ei ochr. |
| 8 | Yr anifail mwyaf yn y môr. |
| 9 | Creadur a chanddo wyth coes hir sydd yn chwistrellu inc. |
| 10 | Anifail mawr, llwydlas, heb draed, pysgotwr a nofiwr o fri, sy'n hoffi torheulo ar greigiau ac ar y traeth. |